Llywodraeth Cymru
Welsh Government

POLISI A STRATEGAETH, DOGFENNU

# Diwygiadau i gymhwystra dioddefwyr cam-drin domestig a thrais domestig, a phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth

Mae'r hysbysiad gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru hwn yn disgrifio newidiadau i gymhwysedd o fewn deddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Gorffennaf 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Gorffennaf 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-gymhwystra-dioddefwyr-cam-drin-domestig-thrais-domestig-phartneriaid-sydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru#148408)

**Cymhwystra dioddefwyr cam-drin domestig a thrais domestig** (https://www.llyw.cymru#148411)

**Cymhwystra partneriaid sydd wedi cael profedigaeth** (https://www.llyw.cymru#148413)

**Ymholiadau** (https://www.llyw.cymru#148415)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-gymhwystra-dioddefwyr-cam-drin-domestig-thrais-domestig-phartneriaid-sydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cyflwyniad

**Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn disgrifio newidiadau i gymhwystra o fewn deddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais domestig, a phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth** (https://www.llyw.cymrunull).

Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig neu drais domestig, a phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth, sydd wedi cael caniatâd i fod yn y DU gan Lywodraeth y DU o dan amrywiol ddarpariaethau yn y Rheolau Mewnfudo, yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd (hy er mwyn i statws ffioedd cartref a ffioedd dysgu wedi'u capio fod yn gymwys). Mae plentyn person o'r fath hefyd yn gymwys. Mae'r unigolion hyn yn cael triniaeth arbennig o dan y Rheolau Mewnfudo i gydnabod y ffaith y gallent ei chael hi'n anodd dangos eu bod yn gymwys i gael caniatâd i fod yn y DU.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi gwneud newidiadau i'w Rheolau Mewnfudo i gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig a phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth mewn 2 atodiad ar wahân newydd. Mae deddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd Cymru yn cyfeirio'n benodol at y Rheolau Mewnfudo fel bod person sy'n dod o dan ddarpariaethau penodol yn gymwys.

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024") yn gwneud diwygiadau i'r rheoliadau presennol i adlewyrchu'r newidiadau hyn i'r Rheolau Mewnfudo.

Bydd Rheoliadau 2024 yn dod i rym ar 9 Awst 2024.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-gymhwystra-dioddefwyr-cam-drin-domestig-thrais-domestig-phartneriaid-sydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cymhwystra dioddefwyr cam-drin domestig a thrais domestig

Gwnaed diwygiad i **gynnwys y rhai sydd wedi cael caniatâd o dan yr Atodiad Dioddefwr Cam-drin Domestig newydd yn y Rheolau Mewnfudo i fod yn gymwys i gael cymorth myfyrwyr a diogelu ffioedd.** (https://www.llyw.cymrunull)

Mae'r diwygiad hwn hefyd yn estyn cymhwystra i'r rhai sydd â chaniatâd i ddod i mewn. Mae'r Rheolau Mewnfudo wedi'u hehangu er mwyn i'r rhai sydd wedi dioddef cefnu ar briodas drawswladol (math o gam-drin domestig lle mae'r person sy'n cam-drin yn cefnu ar ei bartner dramor a'i ganiatâd i aros yn y DU yn dod i ben a/neu ei fod yn cael ei adael heb fynediad at ei basbort na'i ddogfennau mewnfudo, gan ei atal rhag dychwelyd i'r DU) gael llwybr tuag at gliriad i ddod i mewn i breswylio yn y DU.

Mae'r cyfeiriadau presennol at y Rheolau Mewnfudo o fewn deddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd wedi'u cadw. Bydd y rhai a gafodd ganiatâd cyn i'r Atodiad newydd ddod i rym yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd.

Bydd y diwygiad yn weithredol o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym a bydd yn berthnasol i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig newydd a phresennol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd y rhai sy’n cael caniatâd o dan yr Atodiad newydd yn gymwys i wneud cais am gymorth ar gyfer cyrsiau addysg uwch a gychwynnodd mewn blynyddoedd academaidd a ddechreuodd ar 1 Ionawr, 1 Ebrill neu 1 Gorffennaf 2024, neu sydd i fod i gychwyn ar neu ar ôl 1 Awst 2024.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-gymhwystra-dioddefwyr-cam-drin-domestig-thrais-domestig-phartneriaid-sydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Cymhwystra partneriaid sydd wedi cael profedigaeth

Gwnaed diwygiad i gynnwys y rhai sydd wedi cael caniatâd o dan yr Atodiad Partneriaid sydd wedi cael Profedigaeth newydd yn y Rheolau Mewnfudo i fod yn gymwys i gael cymorth myfyrwyr a diogelu ffioedd.

Mae'r diwygiad hwn hefyd yn estyn cymhwystra i'r rhai sydd â chaniatâd i ddod i mewn. Mae'r Rheolau Mewnfudo wedi'u hehangu i ddarparu ar gyfer partner (tramor) personél yn y lluoedd arfog, sydd wedi cael profedigaeth, ac sydd â llwybr tuag at gliriad i ddod i mewn i breswylio yn y DU.

Mae'r cyfeiriadau presennol at y Rheolau Mewnfudo o fewn deddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd wedi'u cadw. Bydd y rhai a gafodd ganiatâd cyn i'r Atodiad newydd ddod i rym yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd.

Bydd y diwygiad yn weithredol o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym a bydd yn berthnasol i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig newydd a phresennol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd y rhai sy’n cael caniatâd o dan yr Atodiad newydd yn gymwys i wneud cais am gymorth ar gyfer cyrsiau addysg uwch a gychwynnodd mewn blynyddoedd academaidd a ddechreuodd ar 1 Ionawr, 1 Ebrill neu 1 Gorffennaf 2024, neu sydd i fod i gychwyn ar neu ar ôl 1 Awst 2024.

# Ymholiadau

Os oes gennych ymholiadau am geisiadau, sut i wneud cais, taliadau neu unrhyw agwedd arall ar y gwasanaeth, cysylltwch â **Cyllid Myfyrwyr Cymru** (https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/cysylltwch/).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-gymhwystra-dioddefwyr-cam-drin-domestig-thrais-domestig-phartneriaid-sydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch ag Is-adran Strategaeth a Chyllid Llywodraeth Cymru drwy e-bostio: **isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru)

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-gymhwystra-dioddefwyr-cam-drin-domestig-thrais-domestig-phartneriaid-sydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).